

# PROFIAD Y PRENTIS



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Partneriaeth  
Cydwasaethau  
Shared Services  
Partnership



**Anthony  
Hayward**  
Prentis  
1986

Taith o Brentis  
Trydanol i  
Gyfarwyddwr  
Cynorthwyol y Golchdy  
a Gweithrediadau



"Dechreuodd fy ngyrfa yn ngolchdy Gwynllyw fel prentis trydanol yn 1986 gydag Awdurdod Iechyd Gwent. Ar ôl cwblhau fy mhrentisiaeth, cefais fy mhenodi'n grefftwr cynnal a chadw yn Ysbyty Brenhinol Gwent lle roedd fy ngwaith yn cynnwys Gwaith cynnal a chadw ataliol wedi'i gynllunio, methiannau peiranyddol a gwaith gosod ynghyd ag arolygon ynni a dosbarthu.

Ym 1994, ymunais â'r Sefydliad Peirianeg Gofal Iechyd a Rheoli Ystadau fel Technegydd Peirianeg a chefais gyfle hefyd i gael dyrchafiad i swydd ddatblygu fel Swyddog Ystadau dan hyfforddiant. Ym 1995 ges i fy rôl weithredol gyntaf â chyfrifoldeb am Ysbytai Cas-gwent a'r Sir a rôl gefnogol ar gyfer Ysbytai Brenhinol Gwent ac Ysbyty Gwynllyw. Yn y rôl hon, cyflwynais brentisiaethau modern a hyfforddiant pwrpasol i ddiwallu anghenion yr Ymddiriedolaeth.

Daeth cyfle i adael yr Ymddiriedolaeth y dechreuais fy ngyrfa ag ef ym 1998 ac ymuno ag Ysbyty Nevill Hall a'r Cylch fel y Rheolwr Gweithredol. Fe wnes i barhau â'm hastudiaethau a chwblhau rhaglen MBA tair blynedd yn llwyddiannus. Gyda'r pwyslais cynyddol tuag at y llwybr rheoli, ymunais â'r Sefydliad Rheolaeth Siartredig.

Yn 2009, cefais fy mhenodi'n Gyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau dros dro ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ac yn ddiweddarach symudais o reoli Ystadau i reoli Cyfleusterau fel Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfleusterau. Arhosais yn y swydd hon tan 2017 pan ymunais â'r Uned Comisiynu Cydweithredol Genedlaethol (NCCU) fel Cyfarwyddwr Corfforaethol. Fel sefydliad newydd, roeddwn yn gyfrifol am sefydlu ei brosesau busnes. Yn ogystal â'r swydd hon, bûm hefyd yn gweithredu fel Cyfarwyddwr Prosiect ar gyfer adolygiad Golchdy Cymru Gyfan PCGC. Arweiniodd swydd y prosiect yn PCGC at fy rôl bresennol yn 2021 fel Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Golchdy a Gweithrediadau gyda Gwasanaeth Golch Cymru Gyfan."



**Grando a Dysgu**



**Cymryd Cyfrifoldeb**



**Gweithio Gyda'n Gilydd**



**Arloesi**

GWERTHOEDD CRAIDD PCGC